**Edwina Hart MBE CStJ AC / AM**
**Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth**
**Minister for Economy, Science and Transport**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru

22 Ionawr 2016

Annwyl Aelod Cynulliad

Rwy'n ysgrifennu atoch i roi gwybod ichi am ymarfer ymgysylltu â'r cyhoedd ar fasnachfraint rheilffyrdd Cymru a'r Gororau yn y dyfodol. Disgwylir i swyddogaethau masnachfraint rheilffyrdd gael eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru yn 2017. Cyn hynny mae'n bwysig bod Llywodraeth Cymru'n ymgysylltu â'r cyhoedd a rhanddeiliaid perthnasol er mwyn datblygu manyleb ar gyfer masnachfraint newydd.

Heddiw rwyf wedi lansio ymarfer ymgysylltu â'r cyhoedd sy'n ceisio gwahodd barn y cyhoedd ar y canlyniadau ansawdd allweddol y mae angen eu cynnwys mewn manyleb masnachfraint, gan gynnwys:

- Canlyniadau a blaenoriaethau ar gyfer gwella
- Gwasanaethau i'w darparu a'u capasiti
- Perfformiad a delio â phroblemau
- Prisiau a thocynnau
- Cerbydau

Yr ymgynghoriad hwn yw'r cam cyntaf o raglen ymgysylltu â'r cyhoedd a'r diwydiant. Bydd adroddiad yn crynhoi'r safbwyntiau a fynegir yn y cam hwn o'r ymarfer ymgysylltu'n cael ei baratoi a'i gyhoeddi ar ôl i etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru gael eu cynnal ym mis Mai.

Bydd y safbwyntiau a gesglir yn yr ymarfer hwn yn cyfrannu ymhellach at ddatblygu'r cynigion manwl a'r fanyleb ar gyfer dyfarnu Masnachfraint newydd Cymru a'r Gororau. Bydd y fasnachfraint yn destun ymgynghoriad cyhoeddus pellach a fydd yn para am o leiaf 12 wythnos.

Edwina Hart

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Gohebiaeth.edwina.Hart@cymru.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)* *Printed on 100% recycled paper*

Rhif: WG27775

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

Llywodraeth Cymru

Dogfen Ymgynghori

# Pennu Cyfeiriad Rheilffyrdd Cymru a'r Gororau

Dyddiad cyhoeddi: 22 Ionawr 2016
Camau i'w cymryd: Ymatebion 18 Mawrth 2016

OGL © Hawlfraint y Goron

## TROSOLWG

Diben yr ymgynghoriad hwn yw rhoi gwybod i randdeiliaid sut y mae Llywodraeth Cymru am i'r rheilffyrdd ddatblygu dros y 15 mlynedd nesaf (hyd at 2030), a rhoi cyfle iddynt roi sylwadau ar yr agweddau hynny y dylai masnachfraint Rheilffyrdd Cymru a'r Gororau roi blaenoriaeth iddynt.

## SUT I YMATEB

Mae'r cyfnod ymgynghori'n dechrau fis Ionawr 2016 a daw i ben ar 18 Mawrth 2016. Gofalwch fod eich ymateb yn ein cyrraedd erbyn y dyddiad cau.

Mae'r ddogfen hon ar gael ar y rhyngrwyd yn http://gov.wales/consultations/?skip=1&lang=cy

Gallwch ymateb:

- Drwy lenwi'r ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad yn Atodiad B; neu
- Drwy anfon eich sylwadau drwy'r e-bost neu drwy'r post i'r cyfeiriad isod.

## RHAGOR O WYBODAETH A DOGFENNAU CYSYLLTIEDIG

Gallwch ofyn am gopi o'r ddogfen hon mewn print bras, Braille, ieithoedd eraill neu ar CD sain.

## MANYLION CYSWLLT


| | |
|---|---|
| Cyfeiriad post: | Y Tîm Polisi Rheilffordd<br>Trafnidiaeth - Polisi, Cynllunio a Phartneriaethau<br>Adran yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth<br>Llywodraeth Cymru<br>Parc Cathays<br>Caerdydd<br>CF10 3NQ |
| E-bost: | railpolicy@wales.gsi.gov.uk |
| Rhif ffôn: | 029 2082 1497 |


## DIOGELU DATA

### Sut y caiff y sylwadau a'r wybodaeth a gawn gennych eu defnyddio

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n ymdrin â'r materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, i'w helpu i gynllunio ymgynghoriadau yn y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni'n ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn yn eu cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth

Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd wneud cais i weld gwybodaeth a gaiff ei chadw gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru.

Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth nad yw wedi'i chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu inni gadw gwybodaeth yn ôl o dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd yn rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei hystyried. Fodd bynnag, weithiau mae'n bosibl y bydd rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn inni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

**RHAGAIR**

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i roi gwasanaethau trên wrth wraidd system drafnidiaeth er mwyn cyflawni'n huchelgais i greu economi fywiog a dynamig. Mae Llywodraeth y DU wedi cytuno i drosglwyddo'r pwerau i ddyfarnu masnachfraint nesaf Cymru a'r Gororau i Weinidogion Cymru.

Mae hyn yn ddechrau cyfnod cyffrous i'n rheilffyrdd, gan y bydd penderfyniadau yngylch gwasanaethau trên yng Nghymru yn cael eu gwneud yng Nghymru a bydd yn haws inni adeiladu ar wasanaethau a'u gwella ymhellach yn ystod y blynyddoedd nesaf.

Mewn sawl rhan o ardal Cymru a'r Gororau, mae'r gwasanaethau trên yn rhan allweddol o'r rhwydwaith trafnidiaeth - yn cysylltu cymunedau, busnesau a phobl â gwaith, cyfleusterau hamdden, a gwasanaethau. Fel rhan o system drafnidiaeth gyhoeddus integredig, mae ein gwasanaethau trên yn rhan hanfodol o'r broses o drawsnewid rhagolygon cymdeithasol-economaidd ein cymunedau. Mae'n hanfodol bwysig eu bod yn wasanaethau o safon, a'u bod yn effeithiol, yn fforddiadwy ac yn hygyrch i bawb.

Rhaid cynllunio gwasanaethau i ddiwallu anghenion teithwyr yn yr unfed ganrif ar hugain. Rydym am sicrhau bod y penderfyniadau iawn yn cael eu gwneud ar gyfer y dyfodol er mwyn i'n rheilffyrdd sicrhau'r canlyniadau gorau bosibl i'r cyhoedd ac rydym yn awyddus i glywed eich barn am yr hyn y dylid rhoi blaenoriaeth iddynt wrth lywio gwasanaethau trên y dyfodol.

Edwina Hart

**Edwina Hart MBE CStJ AC / AM**
**Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth**

**CYNNWYS** Tudalen 5

**CYFLWYNIAD**

**MATERION CYFFREDINOL**

Canlyniadau Tudalen 7
Bodlonrwydd teithwyr a blaenoriaethau ar gyfer gwella Tudalen 8

**GWASANAETHAU TRÊN**

Y gwasanaethau presennol Tudalen 10
Nifer y teithwyr a'r twf disgwyliedig Tudalen 10
Amrywiaeth y gwasanaethau yn y dyfodol Tudalen 12
Lle ar y trenau Tudalen 13
Safonau perfformiad Tudalen 13
Tarfu ar wasanaethau Tudalen 14
Pris tocynnau Tudalen 15
Cerbydau Tudalen 18
Arlwyo Tudalen 19

**GORSAFOEDD** Tudalen 20

**YMGYSYLLTU**

Gwybodaeth i deithwyr Tudalen 21
Y Gymraeg Tudalen 22
Rheilffordd gymunedol Tudalen 23
Cydweithredu ag eraill Tudalen 23

**DIOGELWCH A DIOGELEDD** Tudalen 24

**CYNALIADWYEDD** Tudalen 25

Effaith ar yr amgylchedd
Effaith gymdeithasol-economaidd
Datblygu'r gweithlu

**CYDRADDOLDEB** Tudalen 26

Tabl 1 – Y twf arfaethedig yn nifer y teithwyr yn ôl rhagolygon Network Rail
Ffigur 1 – Blaenoriaethau teithwyr ar gyfer gwella'r rheilffyrdd yng Nghymru

Atodiad A – Rhestr o wasanaethau presennol Cymru a'r Gororau
Atodiad B – Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad

**CYFLWYNIAD**

Mae gan Lywodraeth Cymru ran bwysig yn y gwaith o reoli masnachfraint bresennol Cymru a'r Gororau. O ddechrau 2017 ymlaen, disgwylir y bydd Llywodraeth Cymru yn awdurdod a fydd yn gallu rhoi masnachfraint a bydd yn gyfrifol am ddyfarnu masnachfraint nesaf Cymru a'r Gororau, sy'n debygol o ddechrau ym mis Hydref 2018.

I baratoi ar gyfer hyn, a chyda chytundeb Llywodraeth y DU, mae Llywodraeth Cymru yn datblygu cynlluniau strategol ar gyfer gwasanaethau trên Cymru a'r Gororau.  Ein gweledigaeth yw creu model diddifidend sydd â chysylltiad cryf â'r gymuned y mae'n ei wasanaethu. Bydd 'Trafnidiaeth Cymru,' ein cwmni diddifidend, yn sicrhau y bydd masnachfraint nesaf Cymru a'r Gororau yn cynnig gwasanaethau modern, o safon, a fydd yn rhan o system drafnidiaeth gyhoeddus integredig ar hyd a lled Cymru.

Ein nod yw cryfhau gwasanaethau mewn modd a fydd yn ei gwneud yn haws i bobl ddod o hyd i waith a chyfleoedd cymdeithasol, yn rhoi hwb i'r economi ac yn gwella cysylltiadau rhwng Cymru a gweddill y DU a'r tu hwnt.

Byddwn yn parhau i bwyso ar Lywodraeth y DU i ddatganoli pwerau'n ymwneud â'r seilwaith rheilffyrdd i Weinidogion Cymru, ac i fuddosddi yn seilwaith y rheilffyrdd yng Nghymru. Byddwn yn gweithio'n agos gyda'n parnteriaid i ddylanwadu ar gynlluniau diwydiannol i sicrhau Cyfnodau Rheoli yn y dyfodol.

Yng ngogledd Cymru, rydym yn gweithio gyda'n partneriaid i gryfhau'r achos dros foderneiddio prif rheilffordd gogledd Cymru. Yn ne Cymru, rydym am gwblhau'r gwaith o drydaneiddio prif rheilffordd Great Western a rhoi'r cynllun Metro ar waith yn ne-ddwyrain Cymru. Caiff hyn ei wneud yng nghyd-destun prosiect Metro Llywodraeth Cymru, a lansiwyd ar 30 Tachwedd 2015 ac a gaiff ei ddefnyddio fel model ar gyfer gwasanaethau i gymudwyr drwy Gymru.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ymgysylltu â rhanddeiliaid i sicrhau bod anghenion ein cymunedau'n cael eu diwallu.

Drwy gynnal yr ymgynghoriad hwn, rydym yn cadw at ein hymrwymiad i ymgysylltu â phobl Cymru wrth inni fwrw ymlaen â'r gwaith o ddatblygu gwasanaethau trên yng Nghymru. Ar ôl yr ymgynghoriad, byddwn yn cyhoeddi crynodeb o'r sylwadau a ddaeth i law. Byddwn yn defnyddio'r sylwadau hyn i ddatblygu cynigion manwl a manylebau ar gyfer masnachfraint nesaf Cymru a'r Gororau, ynghyd â'r gwasanaethau trên a ddarperir fel rhan o gynllun Metro'r de-ddwyrain Cymru. Ar sail canlyniad yr ymgynghoriad hwn, yr ymgysylltiad ehangach â'r cyhoedd a thrafodaethau â'r diwydiant rheilffordd, byddwn yn datblygu cynigion manwl cyn ymgynghori ymhellach yn eu cylch a'u trafod â'r cyhoedd.

Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn eich gwahodd i ateb amrywiaeth o gwestiynau ac yn rhoi cyfle ichi roi sylwadau ar ddyfodol gwasanaethau trên Cymru a'r Gororau.

## MATERION CYFFREDINOL

### Canlyniadau

Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i annog rhagor i deithio ar y trên yn lle defnyddio cerbydau preifat. Drwy wneud hynny, mae'n bosibl y gellid hybu twf a ffyniant economaidd a helpu i leihau effaith trafnidiaeth yn gyffredinol ar yr amgylchedd.

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig y dylai gwasanaethau trên sy'n gweithredu yng Nghymru a'r Gororau gyfrannu at y canlyniadau lefel uchel isod erbyn 2030:

- Lleihau amseroedd teithio'n gyffredinol drwy ddarparu gwasanaethau cyflymach, sy'n rhedeg yn amlach, a chysylltiadau gwell rhwng dulliau gwahanol o deithio
- Cynyddu'r nifer sy'n defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus drwy ddarparu gwasanaethau newydd a gwell i deithwyr
- Lleihau costau gweithredu a chynnal a chadw drwy weithio'n fwy effeithlon a drwy gynyddu'r nifer sy'n defnyddio'r gwasanaethau
- Meithrin gallu ymdopi â'r galw yn ystod y cyfnodau prysuraf a digwyddiadau arbennig
- Gwella hygyrchedd a chydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010 drwy gydgysylltu gwasanaethau a gwella cynllun y gorsafoedd
- Lleihau allyriadau drwy ddefnyddio llai o gerbydau ffordd
- Darparu gwasanaethau uniongyrchol rhwng y prif ardaloedd preswyl a chanolfannau economaidd
- Gwella ansawdd gwasanaethau drwy ddarparu cerbydau gwell ac integreiddio gwasanaethau'n well
- Gwella prydlondeb

**Cwestiwn 1: A ydych chi'n cytuno â chanlyniadau lefel uchel Llywodraeth Cymru ar gyfer rheilffyrdd Cymru a'r Gororau? A oes unrhyw ganlyniadau eraill y dylem eu hystyried?**

**Bodlonrwydd teithwyr a blaenoriaethau ar gyfer gwella**


Mae Transport Focus, corff gwarchod defnyddwyr trafnidiaeth annibynnol, yn cynnal arolygon ymhlith cwsmeriaid National Rail (NRPS), i ddangos pa mor fodlon yw teithwyr â'r rhwydwaith rheilffyrdd. Caiff sylwadau teithwyr eu casglu dros gyfnod i fesur pa mor fodlon ydynt yn gyffredinol a pha mor fodlon ydynt ag agweddau penodol yn ymwneud â gorsafoedd a threnau. Cyhoeddwyd yr arolwg diweddaraf[1] ym mis Mehefin 2015 ac, yn gyffredinol, roedd 89 y cant o'r teithwyr yn fodlon â masnachfraint bresennol Cymru a'r Gororau.

Mae Transport Focus hefyd yn cynnal gwaith ymchwil ychwanegol i flaenoriaethau teithwyr ac, yn 2014, cyhoeddwyd gwybodaeth am flaenoriaethau teithwyr ar gyfer gwella'r rheilffyrdd[2]. Yn ffigur 1, gwelir y canlyniadau sy'n berthnasol i deithwyr yng Nghymru. Dyma'r pum blaenoriaeth gyntaf a nodwyd yn arolwg Transport Focus:

1. Pris tocynnau trên yn rhoi mwy o werth am arian
2. Seddi ar y trên ar gael i deithwyr bob amser
3. Digon o drenau'n rhedeg ar amseroedd sy'n gyfleus i deithwyr
4. Y cwmni trenau'n rhoi digon o wybodaeth am unrhyw oedi
5. Rhagor o drenau'n cyrraedd ar amser

[1] Transport Focus – Arolwg Bodlonrwydd Teithwyr National Rail
[2] Transport Focus – Blaenoriaethau teithwyr ar gyfer gwella'r rheilffyrdd – Hydref 2014

Ffigur 1 – Blaenoriaethau teithwyr ar gyfer gwella’r rheilffyrdd yng Nghymru




**Cwestiwn 2: A ydych chi’n cytuno â’r pum blaenoriaeth gyntaf a nododd teithwyr rheilffordd yn arolwg Transport Focus? Ym mha drefn fyddech ch’n rhoi’r blaenoriaethau hyn? A fyddech chi’n rhoi blaenoriaeth i faterion eraill?**

## GWASANAETHAU TRÊN

### Y gwasanaethau presennol

Fel gweithredwr masnachfraint bresennol Cymru a'r Gororau, mae Trenau Arriva Cymru yn gweithredu 955 o wasanaethau sy'n cludo tua 65,000 o deithwyr bob dydd[3]. Mae'r gwasanaethau hyn yn cynnwys nifer sy'n gwasanaethu gorsafoedd yng Nghymru, a nifer fechan sy'n gwasanaethu gorsafoedd yn Lloegr, ac eraill sy'n creu cysylltiad pwysig rhwng Cymru a chanolfannau trefol yn Lloegr – gan gynnwys Manceinion, Birmingham, Henffordd, Amwythig, Caerloyw a Cheltenham. Mae rhestr o'r gwasanaethau sydd ar gael ar hyn o bryd i'w gweld yn **Atodiad A**.

### Nifer y teithwyr a'r twf disgwyliedig

O ddechrau'r fasnachfraint bresennol hyd at 2014, bu cynnydd o 32 y cant yn nifer y cilometrau trên a deithiodd Trenau Arriva Cymru a hynny er mwyn ateb y galw cynyddol[4]. Disgwylir i'r galw barhau i gynyddu. Fel rhan o Astudiaeth Llwybr Cymru, mae Network Rail yn rhagweld twf yn y galw ar hyd y llwybrau sy'n berthnasol i fasnachfraint Cymru a'r Gororau, fel y gwelir yn y crynodeb yn Nhabl 1.

---

[3] http://www.arrivatrainswales.co.uk/OurCompany/
[4] Llywodraeth Cymru – Ystadegau Trafnidiaeth Rheilffyrdd 2014-15

Tabl 1 – Y twf disgwyliedig yn nifer y teithwyr yn ôl rhagolygon Network Rail [5]

| **Y twf disgwyliedig yn nifer y teithwyr rhwng 2013-2023 a 2043** | | | |
|---|---|---|---|
| | | **Twf disgwyliedig** | |
| **Siwrneiau hir** | | **2023** | **2043** |
| Siwrneiau rhwng | | | |
| Llundain | Caerdydd | 34% | 142% |
| | Abertawe | 28% | 111% |
| | Arfordir Gogledd Cymru | 27% | 151% |
| Arfordir Gogledd Cymru | Gogledd-orllewin Lloegr | 25% | 80% |
| | Gorllewin Canolbarth Lloegr | 16% | 79% |
| Gogledd Cymru | De Cymru | 20% | 77% |
| Rheilffordd Cambrian | Gorllewin Canolbarth Lloegr | 21% | 78% |
| **Cymudo – y coridor i Gaerdydd** | | | |
| Rheilffyrdd y Cymoedd | | 76% | 153% |
| Bro Morgannwg | | 80% | 159% |
| Rheilffordd Glynebwy | | 112% | 205% |
| Abertawe | | 56% | 124% |
| Prif Reilffordd Great Western | | 46% | 120% |
| Y Mers | | 38% | 96% |
| **Cymudo – y coridor i Abertawe** | | | |
| Calon Cymru | | 32% | 90% |
| Gorllewin Abertawe | | 24% | 78% |
| Cymudo o orsafoedd lleol | | 30% | 87% |
| Siwrneiau hir a gwasanaethau rhwng canolfannau trefol | | 37% | 97% |
| **Siwrneiau rhwng Wrecsam a'r trefi a ganlyn:** | | | |
| Caer | | 30% | 88% |
| Manceinion | | 27% | 82% |
| Lerpwl | | 27% | 82% |

[5] Network Rail – Astudiaeth Llwybr Cymru (ffigurau o'r fersiwn i'w chyhoeddi fis Ionawr 2016)

**Amrywiaeth y gwasanaethau a pha mor aml y dylent redeg yn y dyfodol**

Wrth ddatblygu masnachfraint nesaf Cymru a'r Gororau, mae Llywodraeth Cymru yn ystyried sut y mae angen gwella'r gwasanaethau presennol (sydd wedi'u crynhoi yn Atodiad A), er mwyn medru ymdopi'n well â'r galw disgwyliedig.

Dyma'r prif wasanaethau yn y fasnachfraint bresennol:

- **Gwasanaethau siwrnai hir**, gan gynnwys gwasanaethau uniongyrchol bob awr rhwng Caerdydd a'r prif ganolfannau economaidd yn Lloegr, gan gynnwys Manceinion a Crewe
- **Gwasanaethau siwrnai fer** i gymudwyr rhwng Caerdydd a'r Cymoedd, gan gynnwys 5 bob awr rhwng Caerdydd a Phontypridd, a 3 bob awr rhwng Caerdydd a'r Barri.
- **Gwasanaethau gwledig**, fel y rhai ar reilffordd Calon Cymru rhwng Abertawe ac Amwythig sy'n rhedeg yn aml yn ystod y dydd.

**Cwestiwn 3: A ydych chi'n credu bod angen newid y gwasanaethau sydd i'w cael ar hyn o bryd, o ran eu hamrywiaeth a pha mor aml y maent yn rhedeg? Mae'r gwasanaethu presennol wedi'u rhestru yn Atodiad A**

Os caiff y cyfrifoldeb dros fasnachfraint y rheilffyrdd ei drosglwyddo i Weinidogion Cymru yn 2017, mae'n bosibl y gellid cynnwys gwasanaethau trên rhwng Cymru a chanolfannau allweddol yn Lloegr, fel Bryste, Lerpwl ac eraill.

**Cwestiwn 4 : A oes lleoedd y tu allan i Gymru y dylid ystyried eu cynnwys ym masnachfraint nesaf Cymru a'r Gororau?**

**Lle ar y trenau**

Pan fydd trenau wedi'u gorlenwi, gall teithwyr deimlo'n anghyfforddus ac, weithiau, gallant deimlo nad ydynt yn ddiogel ond, am resymau amrywiol, gall nifer y teithwyr ar drên fod yn fwy na nifer y seddi sydd ar gael. Er ei bod yn bwysig i rai teithwyr gael eistedd drwy gydol eu siwrnai, rydym yn gofyn am eich barn am y cydbwysedd rhwng sicrhau bod digon o le ar yr adegau prysuraf, pan gynhelir digwyddiadau arbennig ac ar gyfer siwrneiau byr a sicrhau bod sedd i bob teithwyr bob amser. Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i gael barn gan amrywiaeth eang o randdeiliaid cyn penderfynu sut i fwrw ymlaen yn y cyswllt hwn.

**Cwestiwn 5: A ellid defnyddio'r lle ar y trenau'n well? Am ba hyd y mae'n dderbyniol disgwyl i deithwyr sefyll pan fyddant yn teithio ar y trên?**

**Safonau perfformiad**

Nodwyd mai prydlondeb a dibynadwyedd gwasanaethau oedd un o brif flaenoriaethau'r teithwyr.[6] Wrth ddyfarnu cytundeb masnachfraint newydd, bydd Llywodraeth Cymru yn cael cyfle i gynnwys safonau perfformiad ar gyfer prydlondeb a dibynadwyedd, a gall hefyd ystyried pennu safonau perfformiad ar gyfer materion eraill hefyd, fel:

- Glendid y trenau a'r gorsafoedd
- Gwasanaethau cwsmeriaid
- Darparu gwybodaeth (gan gynnwys cyfnodau pan fydd problem yn tarfu ar wasanaethau)
- Cyfleusterau i deithwyr

[6] Transport Focus – Blaenoriaethau teithwyr ar gyfer gwella'r rheilffyrdd

**Cwestiwn 6: Pa safonau perfformiad a ddylai Llywodraeth Cymru ystyried eu gosod wrth ddyfarnu masnachfraint ar gyfer gwasanaethau trên?**

**Tarfu ar wasanaethau**

Mae angen sicrhau bod systemau a mesurau digonol ar waith i leihau effaith unrhyw ddigwyddiad sy'n tarfu ar wasanaethau – gan gynnwys tywydd garw, llifogydd, gwaith cynnal a chadw, problemau â'r trenau eu hunain a digwyddiadau ar ochr y lein. Mae digwyddiadau sy'n tarfu'n ddirybudd ar wasanaethau'n peri anfodlonrwydd sylweddol i deithwyr, yn enwedig os na fydd digon o wybodaeth ar gael. Mae data Transport Focus yn awgrymu mai dim ond 42 y cant o deithwyr sy'n fodlon â'r modd y mae'r gweithredwr presennol yn ymdrin ag achosion o oedi[7].

Mae Llywodraeth Cymru yn credu y dylid gorfodi gweithredwr i:

- Sicrhau bod cyn lleied o ddigwyddiadau â phosibl yn tarfu ar wasanaethau
- Rhoi systemau ar waith i roi gwybodaeth i deithwyr yn y gorsafoedd ac ar y trenau am unrhyw ddigwyddiadau sy'n tarfu'n ddirybudd ar wasanaethau a'u heffaith debygol ar ar gynlluniau teithio'r teithwyr
- Gwneud trefniadau eraill ar gyfer y teithwyr er mwyn caniatáu iddynt barhau â'u taith ac, os nad yw hyn yn bosibl, esbonio wrth y teithwyr fod ganddynt hawl i gwyno neu i wneud cais am iawndal
- Rhoi gwybod i deithwyr am unrhyw gynlluniau a fydd yn tarfu ar wasanaethau i sicrhau bod digon o amser ar gael iddynt newid eu trefniadau teithio.

[7] Transport Focus - Arolwg Bodlonrwydd Teithwyr National Rail – tudalen 38

**Cwestiwn 7: Sut y gellid gwella'r trefniadau ar gyfer ymdopi â digwyddiadau sy'n tarfu ar wasanaethau a sut y dylid blaenoriaethu'r rhain?**

## Pris tocynnau

Un o flaenoriaethau allweddol Llywodraeth Cymru yw sicrhau bod pawb yn gallu teithio ar drafnidiaeth gyhoeddus. Mae fforddiadwyedd yn ystyriaeth bwysig i deithwyr a gall eu rhwystro rhag defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus. Mae data arolwg cenedlaethol o fodlonrwydd teithwyr yn awgrymu mai dim ond 57 y cant o deithwyr sy'n teimlo'u bod yn cael gwerth am arian am eu tocyn ar hyn o bryd.[8]

Yn gyffredinol, caiff tocynnau trên ym Mhrydain eu rhannu'n ddau gategori, sef:

- Prisiau sydd wedi'u rheoleiddio – gall y llywodraeth ddylanwadu ar newidiadau i'r rhain bob blwyddyn. Maent yn cynnwys tocyn dwy ffordd dosbarth safonol, tocyn arbed arian a thocyn tymor.
- Prisiau heb eu rheoleiddio a bennir gan gwmnïau gweithredu trenau ar sail penderfyniadau masnachol. Mae'r rhain yn cynnwys tocynnau dosbarth cyntaf a thocynnau a gaiff eu prynu ymlaen llaw.

Daw dros hanner refeniw tocynnau masnachfraint Cymru a'r Gororau o brisiau sydd wedi'u rheoleiddio, a daw'r gweddill o brisiau heb eu rheoleiddio. Yn y gorffennol, mae'r prisiau sydd wedi'u rheoleiddio wedi cynyddu uwchlaw cyfradd chwyddiant y Mynegai Prisiau Adwerthu. Fodd bynnag, dros y ddwy flynedd diwethaf, mae Llywodraeth Cymru wedi cyfyngu'r cynnydd yn y prisiau sydd wedi'u rheoleiddio i gyfradd chwyddiant yn unig.

---

[8] Transport Focus - Arolwg Bodlonrwydd Teithwyr National Rail – tudalen 38

Ers 2007, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu arian ar gyfer cynllun tocynnau consesiynol ar wasanaethau rheilffordd gwledig. Mae'r cynllun yn caniatáu i'r rhai sydd â thocyn teithio consesiynol gan un o awdurdodau lleol Cymru deithio'n ddi-dâl ar y rheilffyrdd a ganlyn:

- Dyffryn Conwy
- Rhwng Wrecsam a Phenarlâg
- Arfordir Cambria
- Calon Cymru

Mae'r cynllun tocynnau rheilffordd rhatach yn cyd-fynd â'r cynllun tocynnau bws rhatach yng Nghymru.

Ynghyd â'r blaenoriaethau eraill ar gyfer gwella, mae'r gost o redeg y rheilffyrdd yn debygol o gynyddu dros oes y fasnachfraint nesaf. Rydym yn credu y gellir talu am y costau hyn drwy redeg y gwasanaethau'n fwy effeithlon, a chynyddu refeniw drwy gynyddu nifer y teithwyr.

**Cwestiwn 8: Sut y dylid talu am y gost o wella gwasanaethau? A fydd yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ei wneud yn sicrhau gwerth gorau am arian i deithwyr?**

**Tocynnau**

Mae nifer o enghreifftiau o wahanol docynnau - ee cardiau clyfar (ee tocynnau Oyster yn Llundain), tocynnau digidol (ee tocynnau ar ffonau symudol) ac rydym yn deall bod tocynnau electronig talu wrth fynd yn dod yn gynyddol boblogaidd. Dyma fanteision y mathau hyn o docynnau:

- Mae'n llai tebygol y cânt eu difrodi na thocynnau papur traddodiadol
- Mae gwerth y tocyn fel arfer yn fwy diogel

- Weithiau, os caiff y cerdyn/tocyn ei ddwyn, gellir ei ail-alluogi a throsglwyddo'i werth
- Mae'n bosibl cynnwys gwybodaeth fwy cymhleth, a gwybodaeth am siwrneiau ar y tocyn a, thrwy hynny, wella'r data a gaiff ei gasglu a helpu i ddeall natur y siwrneiau presennol
- Gellir cymhwyso rheolau 'capio' i rai tocynnau sy'n caniatáu i deithwyr cael y prisiau gorau (ee tocynnau Oyster yn Llundain).
- Mae tocyn integredig yn caniatáu i'r defnyddiwr ddefnyddio un math o docyn i ddefnyddio dulliau gwahanol o deithio.

Yn draddodiadol, tocynnau papur yw tocynnau trên yng Nghymru. Maent yn gymharol rad i'w cynhyrchu ac nid oes angen offer cymhleth i'w prosesu. Mae data Transport Focus yn awgrymu bod 78 y cant o deithwyr yn fodlon ar hyn o bryd â'r system prynu tocynnau[9]. I roi'r gorau i ddefnyddio tocynnau papur, byddai'n rhaid buddsoddi mewn offer a seilwaith ychwanegol.

**Cwestiwn 9: A fyddai'n well gennych beidio â defnyddio tocynnau papur ac, os felly, pa fath o docyn fyddai orau?**

Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i weld system tocynnau trên sydd wedi'i hintegreiddio'n well â mathau eraill o drafnidiaeth gyhoeddus.

**Cwestiwn 10: Pa mor bwysig yw cael un tocyn integredig i ganiatáu ichi ddefnyddio gwahanol fathau o drafnidiaeth gyhoeddus yng Nghymru? A oes gennych chi enghreifftiau o arfer da?**

[9] Transport Focus - Arolwg Bodlonrwydd Teithwyr National Rail – tudalen 38

## Cerbydau

Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i weithredwr nesaf y fasnachfraint wella cerbydau'n sylweddol a darparu cerbydau newydd. Ar hyn o bryd, mae Trenau Arriva Cymru yn defnyddio amrywiaeth o gerbydau disel y genhedlaeth hŷn i ddarparu'r amrywiaeth o wasanaethau – gan gynnwys gwasanaethau gwledig, gwasanaethau i gymudwyr a gwasanaethau siwrnai hir - a gaiff eu gweithredu o dan fasnachfraint Cymru a'r Gororau.

Bydd angen buddsoddi yn y cerbydau a ddefnyddir yn y dyfodol i sicrhau eu bod yn addas i'r diben ac, yn benodol, i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r safonau a fydd yn ofynnol yn 2020 i ddiwallu anghenion pobl sydd â gallu cyfyngedig i symud.

Yn ôl gwaith ymchwil Transport Focus, ymddengys bod lefelau bodlonrwydd cyffredinol â'r cerbydau a weithredir gan fasnachfraint Cymru a'r Gororau cystal â rhannau eraill o Brydain[10]. Fodd bynnag, deallwn nad yw bodlonrwydd teithwyr â rhai nodweddion ansawdd, fel lle i roi bagiau, toiledau, lle i eistedd neu sefyll, Wi-fi am ddim a chyfforddusrwydd, yn cymharu mor ffafriol.

Hoffem gael eich barn am bwysigrwydd nodweddion ansawdd yn y cerbydau fel:

- Cysylltedd symudol gwell a hwnnw am ddim (gan gynnwys Wi-fi)
- Lle i wefru dyfeisiau symudol wrth y seddi
- Systemau gwybodaeth y gellir eu gweld a'u clywed
- Toiledau ar y trên
- Seddi i deithwyr ag anghenion penodol
- Seddi wedi'u gosod i gyd-fynd â'r ffenestri
- Lle ychwanegol i feiciau (llai o le ar gyfer seddi)
- Digon o le i roi bagiau

[10] Transport Focus - Arolwg Bodlonrwydd Teithwyr National Rail

Disgwylir i'r nodweddion hyn i gyd wella yn y cerbydau a ddefnyddir fel rhan o fasnachfraint nesaf Cymru a'r Gororau. Hefyd, disgwylir darpariaeth ychwanegol i deithwyr sy'n dymuno teithio gyda'u beic er mwyn hybu amcanion teithio llesol Llywodraeth Cymru.

**Cwestiwn 11: A oes unrhyw nodweddion ansawdd eraill yr hoffech eu gweld yn gwella? Sut y byddech chi'n blaenoriaethu'r rhain ar gyfer masnachfraint Cymru a'r Gororau?**
**Pa nodweddion ansawdd ychwanegol fyddech chi'n hoffi i Lywodraeth Cymru eu blaenoriaethu ar**

- **wasanaethau i gymudwyr?**
- **gwasanaethau gwledig?**
- **gwasanaethau siwrnai hir?**

**Arlwyo**

Ar hyn o bryd, mae gwasanaethau arlwyo masnachfraint Cymru a'r Gororau ar gael yn y gorsafoedd mwyaf ac ar y rhan fwyaf o'r trenau sy'n teithio siwrneiau cymharol bell. Fel arfer, gwasanaeth troli yw'r gwasanaeth hwn sy'n gwerthu lluniaeth ysgafn i deithwyr yn eu seddi, a chaiff prydau poeth eu darparu ar y Gwasanaeth Dosbarth Busnes sy'n rhedeg yn ystod yr wythnos rhwng y Gogledd a'r De.

**Cwestiwn 12: A ydych chi'n credu bod y ddarpariaeth arlwyo yn y fasnachfraint bresennol yn ddigonol ar gyfer siwrneiau hirach? Os nad ydych, sut y dylai Llywodraeth Cymru ystyried dylanwadu ar newidiadau i'r gwasanaethau arlwyo sydd ar gael yn y gorsafoedd a'r trenau?**

**GORSAFOEDD**

Ar hyn o bryd, mae'r fasnachfraint yn rheoli 244 o orsafoedd Cymru ac ardal y Gororau. O'r rhain:

- mae 22 y cant wedi'u staffio ac mae ganddynt swyddfa docynnau
- mae gan 42 y cant ystafelloedd aros neu seddi cysgodol
- mae gan 9 y cant gyfleusterau sy'n gwerthu lluniaeth
- mae gan 36 y cant gyfleusterau i brynu tocynnau
- mae gan 52 y cant system camerâu cylch cyfyng
- mae gan 35 y cant gyfleusterau cadw beiciau

Mae'n bwysig i'r rhai sy'n defnyddio'r rheilffyrdd fod cyfleusterau da i'w cael mewn gorsafoedd. Mae gwaith ymchwil Transport Focus yn awgrymu bod 79 y cant o deithwyr yn fodlon â'r gorsafoedd y mae Trenau Arriva Cymru yn eu rheoli ar hyn o bryd[11]. Er bod arolygon Transport Focus a Trenau Arriva Cymru yn awgrymu bod teithwyr, yn gyffredinol, yn fodlon â'r gorsafoedd yn ardal Cymru a'r Gororau, maent hefyd yn dangos bod angen gwella'r cyfleusterau – yn enwedig seddi cysgodol, gwaith cynnal a chadw a gwasanaethau arlwyo ac adwerthu.

Disgwylir i'r holl agweddau hyn wella, ac y bydd darpariaeth ychwanegol i deithwyr sy'n dymuno beicio i'r orsaf a chadw eu beic yn ddiogel cyn parhau â'u taith ar y trên. Bydd darparu lleoedd diogel i gadw beiciau mewn gorsafoedd yn cyfrannu sylweddol at amcanion teithio llesol Llywodraeth Cymru.

**Cwestiwn 13: Pa gyfleusterau yn y gorsafoedd y mae angen eu gwella fwyaf yn eich barn chi, a ble?**

[11] Transport Focus - Arolwg Bodlonrwydd Teithwyr National Rail – tudalen 38

Mewn nifer o orsafoedd yn ardal Cymru a'r Gororau mae adeiladau segur. Hoffai Llywodraeth Cymru weld yr asedau hyn yn cael eu defnyddio mewn ffordd fwy buddiol, yn enwedig y rhai y gellid eu datblygu i greu cyfleusterau gwell i deithwyr a/neu i annog rhagor i ddefnyddio'r rheilffyrdd ar ôl integreiddio trafnidiaeth gymunedol ymhellach.

**Cwestiwn 14: Ym mha orsafoedd yr hoffech chi weld arian yn cael ei fuddsoddi mewn adeiladau a sut y gallai Llywodraeth Cymru ddylanwadu ar hyn?**

## YMGYSYLLTU

### Gwybodaeth i deithwyr

Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried ei bod yn hanfodol sicrhau bod teithwyr yn cael gwybodaeth berthnasol ar fformat addas er mwyn darparu gwasanaeth rheilffordd effeithlon. Rydym am sicrhau bod gweithredwr masnachfraint Cymru a'r Gororau yn cyhoeddi gwybodaeth sy'n werthfawr i deithwyr.

**Cwestiwn 15: Pa wybodaeth y dylai Llywodraeth Cymru ystyried ei gwneud yn ofynnol i weithredwr ei chyhoeddi, fel mater o flaenoriaeth, ac ar ba fformat(au)?**

**Y Gymraeg**

Gweledigaeth Llywodraeth Cymru yw gweld y Gymraeg a'r diwylliant Cymraeg yn ffynnu yng Nghymru. Rydym am alluogi pobl i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd.

Mae angen i sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru rannu'r cyfrifoldeb dros hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg.

Dylai Comisiynydd y Gymraeg orfodi cwmnïau gweithredu trenau i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg. Os bydd Comisiynydd y Gymraeg yn eu cymhwyso, dylai'r safonau hyn orfodi'r cwmnïau i fodloni gofynion yn y meysydd a ganlyn:

- Trin gohebiaeth a galwadau ffôn
- Cyfarfodydd cyhoeddus a chyfarfodydd eraill
- Digwyddiadau cyhoeddus
- Cyhoeddusrwydd a hysbysebu
- Cyhoeddiadau a ffurflenni
- Gwefannau a chyfryngau cymdeithasol eraill
- Peiriannau hunanwasanaeth
- Arwyddion, gwybodaeth i'r cyhoedd, cyhoeddiadau ar systemau sain
- Dyfarnu contractau a grantiau
- Hunaniaeth a brand corfforaethol

**Cwestiwn 16: A oes unrhyw ofynion ychwanegol o ran y Gymraeg y dylai Llywodraeth Cymru eu hystyried mewn perthynas â chwmnïau gweithredu trenau a'r gwasanaethau y maent yn eu darparu?**

**Rheilffordd gymunedol**

Ar hyn o bryd, mae pum partneriaeth rheilffordd gymunedol heb eu dynodi yng Nghymru a'r Gororau. Maent i gyd yn aelodau o Gymdeithas y Partneriaethau Rheilffordd Gymunedol.

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod y Partneriaethau Rheilffordd Cymunedol yn creu cysylltiad hanfodol rhwng cymunedau, cwmnïau gweithredu trenau a Network Rail. Rydym am fanteisio ar y cyfle i gryfhau rôl y Partneriaethau ymhellach. Gellid gwneud hyn drwy drefnu i:

- Barhau i gefnogi'r Partneriaethau Rheilffordd Cymunedol i'w galluogi i wneud rhagor i ddatblygu a marchnata gwasanaethau trên a chynyddu nifer y teithwyr
- Annog pobl i sefydlu rhagor o Bartneriaethau Rheilffyrdd Cymunedol
- Datblygu rhaglen 'mabwysiadu gorsaf' gyda chymorth grwpiau cymunedol lleol
- Dyrannu cronfa gwella gorsafoedd i fentrau cymunedol i wella gwasanaethau mewn gorsafoedd, diogelwch teithwyr a theithio llesol

**Cwestiwn 17: Beth y dylai Llywodraeth Cymru ystyried ei wneud i gryfhau gweithgarwch rheilffyrdd cymunedol?**

**Cydweithredu ag eraill**

I ddarparu gwasanaethau trên effeithlon a dibynadwy sydd wedi'u hintegreiddio â dulliau eraill o deithio, bydd yn rhaid gweithio'n agos mewn partneriaeth â gweithredwr masnachfraint Cymru a'r Gororau, cyrff eraill yn y diwydiant rheilffyrdd, awdurdodau lleol a grwpiau cymunedol eraill. Mae Llywodraeth

Cymru yn dymuno gweld y sector trafnidiaeth gyhoeddus cyfan yn cydweithredu'n fwy effeithiol.

**Cwestiwn 18: Pa gyrff y dylai Llywodraeth Cymru ystyried ei gwneud yn ofynnol i weithredwr masnachfraint Cymru a'r Gororau gydweithio â nhw, a sut?**

## DIOGELWCH A DIOGELEDD

Rhaid i weithredwr masnachfraint Cymru a'r Gororau gymryd camau pendant i sicrhau diogelwch teithwyr a staff. Mae ymchwil Transport Focus yn awgrymu mai dim ond 68% o deithwyr sy'n teimlo'n ddiogel yng ngorsafoedd masnachfraint Cymru a'r Gororau.[12]

Mae Llywodraeth Cymru am weld datblygiadau ar reilffyrdd Cymru a'r Gororau i wella diogelwch, ac i sicrhau bod teithwyr yn teimlo'n fwy ddiogel pan fyddant yn teithio. Gallai'r gweithredwr wneud hyn drwy, er enghraifft, ehangu'r system camerâu cylch cyfyng, gwella'r goleuadau, gweithio'n agos gyda Heddlu British Transport i gyflwyno rhaglenni a gyflwynir gan Network Rail, fel "Rail Life".

**Cwestiwn 19: Beth y gallai gweithredwr masnachfraint Cymru a'r Gororau ei wneud i wella diogelwch a diogeledd, a'r canfyddiad o ddiogelwch a diogeled?**

[12] Transport Focus - Arolwg Bodlonrwydd Teithwyr National Rail – tudalen 38

**CYNALIADWYEDD**

Rydym yn cydnabod ei bod yn bwysig i fasnachfraint Cymru a’r Gororau gyfrannu at ddatblygu cynaliadwy. Ystyrir bod y meysydd a ganlyn yn arbennig o bwysig:

<u>Effaith ar yr amgylchedd</u>

- Osgoi neu leihau gwastraff, gan gynyddu cyfran y gwastraff a anfonir i ganolfannau ailgylchu
- Rheoli ynni a charbon, o ran ynni tyniant ac ynni nad yw’n dyniant
- Defnyddio llai o ddŵr ac adnoddau
- Caffael cynaliadwy

<u>Effaith gymdeithasol-economaidd</u>

- Hybu twf economaidd amlwg
- Ymgysylltu â chymunedau lleol a’u grymuso, gan eu cynnwys mewn penderfyniadau sy’n effeithio ar eu bywydau

<u>Datblygu’r gweithlu</u>

- Hybu cydraddoldeb, amrywiaeth, iechyd a lles y gweithlu
- Meithrin sgiliau i sicrhau bod y bobl iawn, sydd â’r sgiliau iawn, yn gweithio ar y rheilffyrdd yn y tymor hir

**Cwestiwn 20: A oes unrhyw faterion eraill yn ymwneud â datblygu cynaliadwy y bydd yn bwysig gorfodi neu annog gweithredwr masnachfraint Cymru a’r Gororau i ganolbwyntio arnynt?**

## CYDRADDOLDEB

Rydym yn arbennig o awyddus i glywed sylwadau ar y ffordd fwyaf effeithiol inni gyflawni'r ddyletswydd yn Neddf Cydraddoldeb 2010 sy'n ymwneud â chydraddoldeb yn y sector cyhoeddus. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd:

- Dileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon, ac unrhyw ymddygiad arall sydd wedi'i wahardd o dan y Ddeddf.
- Hybu cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig perthnasol a phobl nad ydynt yn rhannu'r nodweddion hyn
- Meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig perthnasol a'r rhai nad ydynt yn eu rhannu .

**Cwestiwn 21 : Pa gamau y dylai Llywodraeth Cymru ystyried eu cymryd fel rhan o'r fasnachfraint rheilffyrdd nesaf i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon ar ein rheilffyrdd?**

## GWASANAETHAU PRESENNOL CYMRU A'R GORORAU

Dyma restr o wasanaethau presennol masnachfraint Cymru a'r Gororau, fel ar fis Rhagfyr 2015:

- Dangosir patrwm cyffredinol y gwasanaethau ac nid ydynt, o reidrwydd, yn rhedeg drwy gydol y dydd, yn enwedig yn gynnar yn y bore neu gyda'r hwyr
- Nid yw'r rhestr yn cynnwys gwasanaethau ychwanegol gan gwmnïau trên eraill
- Dim ond y gwasanaethau uniongyrchol a restrir ac, weithiau, bydd siwrneiau eraill yn bosibl drwy ddefnyddio cysylltiadau rheilffyrdd
- Y gweithredwr presennol sy'n darparu'r gwasanaethau a nodir ac, weithiau, maent yn rhedeg yn amlach na'r gofynion cytundebol
- Mae rhagor o wybodaeth i'w chael ar y dudalen we a ganlyn: http://www.arrivatrainswales.co.uk/timetables/

| **Gwasanaeth** | **Pa mor aml? (Llun- Sad)** | **Pa mor aml? (Sul)** |
|---|---|---|
| **Gwasanaethau lleol rhwng y Cymoedd a Chaerdydd** | | |
| Caerdydd - Pen-y-bont ar Ogwr drwy'r Barri/Llanilltud Fawr (Bro Morgannwg) | 1 bob awr | bob dwy awr |
| Caerdydd – Ynys y Barri | 3 bob awr | 2 bob awr |
| Caerdydd – Penarth | 4 bob awr | bob dwy awr |
| Caerdydd – Maesteg | 1 bob awr | dim gwasanaeth |
| Caerdydd – Pontypridd | 6 bob awr | bob 40-45 munud |
| Caerdydd – Bargoed | 3 bob awr | bob dwy awr |
| Pontypridd – Aberdâr | 2 bob awr | bob dwy awr |
| Pontypridd – Merthyr Tudful | 2 bob awr | bob dwy awr |
| Pontypridd – Treherbert | 2 bob awr | bob dwy awr |
| Caerdydd – Rhymni | 1 bob awr | bob dwy awr |
| Bae Caerdydd | 5 bob awr | 5 bob awr |
| Radur – Coryton (Rheilffordd y Ddinas) | 2 bob awr | dim gwasanaeth |
| Caerdydd – Glyn Ebwy | 1 bob awr | bob dwy awr |

| **Prif lein** | | |
|---|---|---|
| *De Cymru a gwasanaethau Trawsffiniol* | | |
| Caerdydd – Caerloyw/Cheltenham | 2 bob tair awr | bob dwy awr |
| Caerdydd – Abertawe | 1-2 bob awr | bob dwy awr |
| Abertawe/Caerfyrddin – Sir Benfro | 1-2 bob awr | 1 bob awr |
| *Rhwng gogledd a de Cymru, y Mers a gwasanaethau trawsffiniol* | | |
| Caerdydd – Manceinion | 1 bob awr | 1 bob awr |
| Caerdydd – Caergybi | bob dwy awr | 2 bob dydd |
| Amwythig – Caer | 1 bob awr | bob dwy awr |
| Amwythig – Crewe | 1-3 bob awr | 1 bob awr |
| *Arfordir gogledd Cymru a gwasanaethau trawsffiniol* | | |
| Llandudno – Blaenau Ffestiniog (Lein Dyffryn Conwy) | 6 bob dydd | dim gwasanaeth |
| Wrecsam – Bidston (Lein y Gororau) | 1 bob awr | bob dwy awr |
| Caergybi – Caer | 1 bob awr | 1 bob awr |
| Caer – Manceinion | 1 bob awr | 1 bob awr |
| Caer – Crewe | 1 bob awr | 1 bob awr |
| *Canolbarth Cymru a gwasanaethau trawsffiniol* | | |
| Aberystwyth – Amwythig | bob 1-2 awr | bob 1-2 awr |
| Pwllheli – Machynlleth | bob dwy awr | 1 bob dydd |
| Abertawe – Amwythig (Lein Calon Cymru) | 4-5 bob dydd | 2 bob dydd |
| Amwythig – Birmingham | 1 bob awr | 1 bob awr |

**Atodiad B**

**PENNU CYFEIRIAD RHEILFFORDD CYMRU A'R GORORAU - FFURFLEN YMATEB I'R YMGYNGHORIAD**

**Sylwch fod angen anfon ymatebion erbyn 18 Mawrth 2016. Anfonwch eich ymateb at:**

Y Tîm Polisi Rheilffyrdd
Trafnidiaeth – Polisi, Cynllunio a Phartneriaethau
Adran yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
railpolicy@wales.gsi.gov.uk

**Cwestiwn 1**. A ydych chi'n cytuno â chanlyniadau lefel uchel Llywodraeth Cymru ar gyfer rheilffyrdd Cymru a'r Gororau? A oes unrhyw ganlyniadau eraill y dylem eu hystyried?

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 2:** A ydych chi'n cytuno â'r pum blaenoriaeth gyntaf a nododd teithwyr rheilffordd yn arolwg Transport Focus? Ym mha drefn fyddech ch'n rhoi'r blaenoriaethau hyn? A fyddech chi'n rhoi blaenoriaeth i faterion eraill?

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 3:** A ydych chi'n credu bod angen newid y gwasanaethau sydd i'w cael ar hyn o bryd, o ran eu hamrywiaeth a pha mor aml y maent yn rhedeg? Mae'r gwasanaethu presennol wedi'u rhestru yn Atodiad A

**Cwestiwn 4**. A oes lleoedd y tu allan i Gymru y dylid ystyried eu cynnwys ym masnachfraint nesaf Cymru a'r Gororau?

**Cwestiwn 5:** A ellid defnyddio'r lle ar y trenau'n well? Am ba hyd y mae'n dderbyniol disgwyl i deithwyr sefyll pan fyddant yn teithio ar y trên?

**Cwestiwn 6:** Pa safonau perfformiad a ddylai Llywodraeth Cymru ystyried eu gosod wrth ddyfarnu masnachfraint ar gyfer gwasanaethau trên?

**Cwestiwn 7:**Sut y gellid gwella'r trefniadau ar gyfer ymdopi â digwyddiadau sy'n tarfu ar wasanaethau a sut y dylid blaenoriaethu'r rhain?

**Cwestiwn 8:** Sut y dylid talu am y gost o wella gwasanaethau? A fydd yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ei wneud yn sicrhau gwerth gorau am arian i deithwyr?

**Cwestiwn 9:**A fyddai'n well gennych beidio â defnyddio tocynnau papur ac, os felly, pa fath o docyn fyddai orau?

**Cwestiwn 10:** Pa mor bwysig yw cael un tocyn integredig i ganiatáu ichi ddefnyddio gwahanol fathau o drafnidiaeth gyhoeddus yng Nghymru? A oes gennych chi enghreifftiau o arfer da?

**Cwestiwn 11:** A oes unrhyw nodweddion ansawdd eraill yr hoffech eu gweld yn gwella? Sut y byddech chi'n blaenoriaethu'r rhain ar gyfer masnachfraint Cymru a'r Gororau?
Pa nodweddion ansawdd ychwanegol fyddech chi'n hoffi i Lywodraeth Cymru eu blaenoriaethu ar:

- wasanaethau i gymudwyr?
- gwasanaethau gwledig?
- gwasanaethau siwrnai hir?

**Cwestiwn 12**: A ydych chi'n credu bod y ddarpariaeth arlwyo yn y fasnachfraint bresennol yn ddigonol ar gyfer siwrneiau hirach? Os nad ydych, sut y dylai Llywodraeth Cymru ystyried dylanwadu ar newidiadau i'r gwasanaethau arlwyo sydd ar gael yn y gorsafoedd a'r trenau?

**Cwestiwn 13:** Pa gyfleusterau yn y gorsafoedd y mae angen eu gwella fwyaf yn eich barn chi, a ble**?**

**Cwestiwn 14:**Ym mha orsafoedd yr hoffech chi weld arian yn cael ei fuddsoddi mewn adeiladau a sut y gallai Llywodraeth Cymru ddylanwadu ar hyn?

**Cwestiwn 15**: Pa wybodaeth y dylai Llywodraeth Cymru ystyried ei gwneud yn ofynnol i weithredwr ei chyhoeddi, fel mater o flaenoriaeth, ac ar ba fformat(au)?

**Cwestiwn 16:** A oes unrhyw ofynion ychwanegol o ran y Gymraeg y dylai Llywodraeth Cymru eu hystyried mewn perthynas â chwmnïau gweithredu trenau a'r gwasanaethau y maent yn eu darparu?

**Cwestiwn 17:** Beth y dylai Llywodraeth Cymru ystyried ei wneud i gryfhau gweithgarwch rheilffordd gymunedol?

**Cwestiwn 18:** Pa gyrff y dylai Llywodraeth Cymru ystyried ei gwneud yn ofynnol i weithredwr masnachfraint Cymru a'r Gororau gydweithio â nhw, a sut?

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 19:** Beth y gallai gweithredwr masnachfraint Cymru a'r Gororau ei wneud i wella diogelwch a diogeledd, a'r canfyddiad o ddiogelwch a diogeledd?

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 20:** A oes unrhyw faterion eraill yn ymwneud â datblygu cynaliadwy y bydd yn bwysig gorfodi neu annog gweithredwr masnachfraint Cymru a'r Gororau i ganolbwyntio arnynt?

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 21:** Pa gamau y dylai Llywodraeth Cymru ystyried eu cymryd fel rhan o'r fasnachfraint rheilffyrdd nesaf i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon ar ein rheilffyrdd?

| |
|---|
| |

**Eich enw chi/enw'ch sefydliad a'ch cyfeiriad post/e-bost**

| |
|---|
| |

**Nodwch ar ran pa grŵp rydych yn ymateb** (ticiwch un)

| | | | |
|---|---|---|---|
| Y Llywodraeth Ganolog | | Grwpiau Defnyddwyr Trafnidiaeth Gyhoeddus | |
| Awdurdod lleol (Cymru) | | Grwpiau Amgylcheddol | |
| Awdurdod lleol (Lloegr) | | Grwpiau Anabledd | |
| Y diwydiant rheilffyrdd | | Grwpiau cymuned | |
| Comisiynwyr / Ombwdsmon | | Gweithredwyr / defnyddwyr trenau cludo nwyddau | |
| Grwpiau cynghori | | Y diwydiant / defnyddwyr gwasanaethau bysiau | |
| Y cyfryngau | | Y diwydiant hedfan /gweithredwyr gwasanaethau hedfan | |
| Y gwasanaethau brys | | Diwydiant y môr /gweithredwyr gwasanaethau ar y môr | |
| Y sector iechyd | | Undebau llafur | |
| Arall (nodwch) | | | |